




BANK OF ENGLAND

Fforwm Agored 2015

Canllaw
crynodeb



Adeiladu trwydded
gymdeithasol

Gwella dealltwriaeth y
cyhoedd

Hysbysu'r agenda diwygio
rheolaeth

Amcanion Allweddol

Egluro'r cymhelliad tu ôl i'r
agenda diwygio rheolaeth

Creu syniadau newydd

Archwilio'r cysylltiadau rhwng
effeithiolrwydd a thrwydded
gymdeithasol

Symud tuag at ddeialog barhaus

Rhan marchnadoedd ariannol o fewn yr economi

Y DU yw'r ganolfan gyllidol ryngwladol mwyaf blaenllaw yn cyflogi 1 miliwn o bobl ac yn cyfrannu £70 biliwn tuag at allforion y DUa. Mae, a dylai, marchnadoedd ariannol fod yn arwain ffyniant. Ond i wneud hynny maent angen gweithio er lles cymdeithas.

Yn sesiwn agoriadol y Fforwm Agored trafodwyd y tri maes eang hyn. Yn gyntaf, y rhan mae marchnadoedd ariannol yn chwarae o fewn cefnogi'r economi. Yn ail, sut mae am newid dros amser. Ac yn olaf, beth mae'r awdurdodau a chyfranwyr y farchnad yn ei wneud, yn ogystal â beth arall sydd angen ei wneud, i gefnogi marchnadoedd ariannol effeithiol yn y cyfnod o'n blaenau.

**Fforwm
Agored
2015**

Ar gyfer beth mae'r marchnadoedd ariannol?

Y teimlad cyffredinol oedd y dylai marchnadoedd ariannol fodoli ar gyfer helpu unigolion gyrraedd diogelwch ariannol, i hwyluso twf economaidd, ac i gefnogi'r economi ehangach.

I ba raddau mae marchnadoedd ariannol yn gweithio er lles cymdeithas?

Credwyd bod y marchnadoedd ariannol yn rhy gymhleth ac nad oedd cymdeithas yn eu deall. Yr amgyffrediad oedd bod y marchnadoedd ariannol yno yn bennaf er mwyn creu elw i'r rheini oedd yn y sector ariannol. O'r herwydd, roedd diffyg ffydd yn y system ariannol a'i heffeithiolrwydd.

Roedd consensws bod y marchnadoedd ariannol yn arweinyddion pwysig o fewn allbynnau economaidd a ffyniant. Er hynny, roedd diffyg cysylltiad rhwng y farn a fynegwyd gan gyfranwyr y farchnad ariannol a'r cyhoedd ehangach. Teimlai aelodau o'r cyhoedd — gan gynnwys y rhai a gyfrannodd at y sesiwn ar y cyd yn Birmingham — nad oedd y marchnadoedd ariannol yn gweithio er budd cymdeithas ac nad oeddent yn gwasanaethu 'pobl gyffredin' yn ddigonol.

Pa weithredoedd fyddai'n cynorthwyo'r diffygion yn y marchnadoedd ariannol?

Yn olaf, pwysleiswyd yn y sesiwn am bwysigrwydd bod yn agored er mwyn ennill ffydd y cyhoedd o fewn y marchnadoedd ariannol. Awgrymwyd y dylai sefydliadau ariannol ffocysu ar eu perthynas gyda'u cwsmeriaid fel modd o fod yn fwy agored yn ogystal â gadael i'r rheini heb gysylltiad â'r diwydiant fod yn fwy beirniadol am yr ymddygiad oddi mewn iddo.

Roedd ffocws y ddadl hefyd ar y sail y dylai safonau'r sector ariannol fod yn uwch nac eraill gan ei fod yn 'edrych ar ôl' arian pobl eraill, a golygai hyn y byddai'r siawns am gamymddygiad yn uwch. Arweiniodd hyn at drafodaeth ar y rhan y gallai còd ymddygiad a rheolaeth chwarae o fewn arwain at ymddygiad da a'r angen i'r ffocws fod ar flaenoriaethau sy'n eu hategu yn hytrach na llythyren y ddeddf.

Effaith rheolaeth ar gadernid y farchnad ariannol

Ers yr argyfwng ariannol, mae gwneuthurwyr polisiau ledled y byd wedi cymeryd camau er mwyn gwneud y system ariannol yn fwy cadarn. Mae llawer wedi ei wneud ynglŷn â'r agenda diwygio yn barod, wedi ei arsylwi gan y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol. Mae sefydliadau ariannol yn addasu i'r amgylchedd rheolaeth y maent yn ei weithredu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r newidiadau hyn yn ddymunol yn ogystal â bwriadol.

Nod y sesiwn hon oedd archwilio sut mae'r agenda diwygio wedi gwella cadernid y system ariannol. Archwiliwyd hefyd y cymhelliad tu ôl i'r newidiadau hyn, sut oedd rheolaeth yn newid y marchnadoedd a'r sefydliadau, ac os oedd yn creu canlyniadau anfwriadol, neu ganlyniadau na'u dymunir.

**Fforwm
Agored
2015**

Sut mae newid rheolaeth wedi effeithio gallu defnyddiwr i fenthyg, buddsoddi a rheoli risg?

Un effaith bwriadol o bosib yr ail-drefniant rheolaeth a amlygwyd gan y panel oedd i gyfleon newydd ar gyfer sefydliadau ariannol nad oeddent yn fanciau (er enghraifft rheolwyr asedau) ymgymeryd â busnes y mae banciau nawr yn llai tebygol o'u darparu. Er enghraifft, mae sefydliadau nad ydynt yn fanciau yn gyflenwyr sy'n dod yn fwy a mwy pwysig ar gyfer benthyciadau rhwydweithiau mewnol, sydd nawr gyda galw mawr amdanynt.

Dechreuodd y drafodaeth trwy archwilio effaith y drefn reolaeth newydd, gan gynnwys bod newid rhai modelau busnes banciau a sefydliadau ariannol eraill yn rhan o'r nod.

Beth yw effaith mwyaf arwyddocaol y newidiadau mewn rheolaeth?

Awgrymodd rai bod y gostyngiad yn hylifedd y farchnad yn gofyn am newidiadau sylfaenol mewn rheoleiddio. Fodd bynnag, credai'r rhan fwyaf o'r rhai a fynychodd y sesiwn mai newidiadau technegol llai i reoleiddio yw'r cyfan sydd ei angen i wella hylifedd y farchnad.

Helpodd y sesiwn hefyd i nodi dau ganlyniad annymunol o bosibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno cymhareb trosoledd y DU yn ddiweddar — mae hwn yn ddangosydd o ddiwydrwydd y cwmni ac yn darparu llawr i'r isafswm cwmnïau mawr cyfalaf sydd gan y DU i'w dal. Ers y cytundeb ar y gymhareb trosoledd, mae bondiau sofran wedi mynd yn llai poblogaidd fel math o sicrwydd cyfochrog. Ond fel uchod, credwyd mai dim ond mân newidiadau technegol i reoleiddio trosoledd fyddai'n ofynnol i wella derbynioldeb y farchnad o fondiau sofran.

Credwyd mai un o'r effeithiau anfwriadol ar gyfer diwygiad rheolaeth oedd y dirywiad mewn hylifedd y farchnad. Disgwylwyd i hylifedd ddirywio'n bellach wrth i reolaeth (e.e. Cyfradd Ariannu Elw Sefydlog) ddod i rym gan y gwelwyd y byddai hyn yn tarfu ar allu'r banciau i ddarparu cyllid a chreu marchnadoedd. Trafodwyd y thema hon yn ddyfnach yn y sesiwn o'r enw 'Rhan hylifedd yn yr economi ehangach'.

Adeiladu Trwydded Gymdeithasol ar gyfer marchnadoedd ariannol

Dydy marchnadoedd ond yn cynnal cydsyniad y gymdeithas i weithredu ac arloesi os y credir iddynt fod yn deg, yn atebol ac hefyd os gellir ymddiried ynddynt i weithio er budd cymdeithas. Dim ond os yw marchnadoedd yn cynnal y 'drwydded gymdeithasol' hon y gallent weithio'n effeithlon, ac felly, cyfrannu'n llawn at ffyniant.

Nod y sesiwn hon oedd i archwilio y syniad o drwydded gymdeithasol ar gyfer marchnadoedd ariannol, i ystyried sut i ddatblygu'r drwydded gymdeithasol honno ac i asesu sut i adnabod pan mae trwydded gymdeithasol yn cael ei ganiatau.

**Fforwm
Agored
2015**

Beth a wnaed hyd yn hyn a beth sydd angen ei wneud?

Roedd cydnabyddiaeth bod rheolaeth ac ataliaeth yn enwedig fel modd i annog ymddygiad yn gyfyngedig. Rhaid i unigolion fod angen gwybod sut i ymddwyn yn foesol. Mae'n rhaid felly gweld trawsnewidiad arwyddocaol mewn ymddygiad diwylliannol. Roedd cydnabyddiaeth bod sefydliadau ariannol, rheolwyr ac academiaid yn trafod y syniad o drwydded gymdeithasol ac ymddengys bod gwir alw gan gyfrannwyr yn y marchnadoedd ariannol i adennill ffydd cymdeithas a symud ymlaen.

Y farn gyffredin yw bod sefydliadau wedi colli ffydd eu cwsmeriaid, a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Dylai sefydliadau ariannol fod yn fwy di-dwyll ac mae'n rhaid i bobl ar bob lefel yn y sefydliadau ariannol deimlo eu bod yn gwneud eu swydd er budd y gymdeithas ehangach. Mae'n rhaid symud o ddefnyddio sgiliau a gallu yn fwyfwy er lles cymdeithas nag ar gyfer cronni o arian.

Sut gallwn ni adeiladu ffydd y cyhoedd i greu trwydded gymdeithasol?

Ymhellach, teimlwyd bod y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau ariannol angen cysylltu gyda'r rheini mewn cymdeithas ehangach a all elwa neu ddioddef o'r gweithredoedd. Trwy'r berthynas hon, dylai sefydliadau ariannol edrych ar wraidd eu diwylliant o fewn anghenion a disgwyliadau y cyhoedd ehangach.

Un opsiwn a drafodwyd oedd i sefydliadau ariannol greu eu cod moesol proffesiynol eu hunain i hysbysu bod, cwmnïau angen cyfathrebu'n amlach gyda'u cwsmeriaid er mwyn gweld beth maent yn ei weld yn deg ac fel ymddygiad moesol ac yna dangos eu bod yn gweithredu'n atebol i'r safonau hynny.

Gwella effeithlonrwydd ariannu marchnad i wasanaethu'r economi

Mae marchnadoedd hydwyth yn hanfodol ar gyfer diogelwch a sefydlogrwydd y system ariannol. Ond maent hefyd angen bod yn effeithiol, cefnogi twf yr economi a darparu mynediad sefydlog i arian ar gyfer cwmnïau o bob maint a chartrefi o bob math.

Nod y sesiwn hon oedd i archwilio sut mae effeithiolrwydd y farchnad yn gallu cynyddu mewn ffordd sy'n darparu mynediad sefydlog, hir-oes i arian ar gyfer cwmnïau ac felly yn cefnogi twf yr economi a sefydlogrwydd yn well.

Ffocysodd y sesiwn ar sut i ddarparu mwy o gyfleon ariannu ar gyfer busnesau bychain a chanolig sef 99% o holl gwmnïau yr UE a dau-draean o gyflogaeth y sector breifat.

**Fforwm
Agored
2015**

Ydy economi'r DU/UE yn rhy ddibynnol ar ddyled banciau?

Roedd hynny yn bwysig oherwydd bod gan gwmnïau anghenion gwahanol yn ymwneud â chyllid felly maent angen gallu cael mynediad i amrywiaeth o gyfleon ariannu gan gynnwys cyfalaf menter, cyllido criw a benthyca o gyfoed i gyfoed. Gallai equity financing fod yn hynod o bwysig ar gyfer cwmnïau ifanc gan bod eu cashflow wedi ei gyfyngu, ond ar yr un pryd gall fod yn her, yn rhannol oherwydd y driniaeth anffafriol o ran treth o gymharu a dyled.

Yn gyffredinol, teimlai cyfranwyr fod economi'r DU yn rhy ddibynnol ar ddyledion banciau a ddim digon ar beth gaiff ei wneud er mwyn gwella hygyrchedd cwmnïau i arian y farchnad.

Teimlwyd y gallai gwella dealltwriaeth y cyhoedd o gyllid gefnogi'r ddarpariaeth cyllid i gwmnïau, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint, gan sicrhau bod buddsoddwyr unigol yn deall y risgiau sydd ynghlwm â'r fath gyllido.

Beth gellir ei wneud i gynorthwyo y farchnad bondiau gwerthiant?

Teimlai rhai bod agweddau o reolaeth, er enghraifft y Gyfeireb Brosiectws, yn cyfrannu at yr anhawsterau mae busnesau bychain a chanolig yn eu hwynebu pan yn ceisio cael mynediad i gyllid drwy gyfyngu gallu'r buddsoddwyr gwerthiant i ariannu prif gyhoeddiad ecwiti.

Ydy Undeb y Marchnadoedd Cyfalaf yn cynrhychioli cyfle i ddatblygu marchnadoedd ecwiti/dyled ar gyfer busnesau bychain a chanolig?

Barn y mwyafrif oedd y gallai cynllun y Comisiwn Ewropeaidd am Undeb Marchnadoedd Cyfalaf arwain at wella mynediad busnesau bychain a chanolig drwy eu cynorthwyo i ddarganfod a chael mynediad i gyfleon ariannu trawsffiniol. Yn ôl un o'r cyfranwyr, 'Mae cyfnod yr Undeb Marchnadoedd Cyfalaf wedi cyrraedd.'

Rhan hylifedd mewn economi ehangach

Hylifedd yw'r term a roddir ar ba mor hawdd y gellir newid un peth i'r llall. Yn y marchnadoedd ariannol, mae llawer o bryderon wedi bod ynglŷn â'r ffaith fod marchnadoedd wedi dod yn llai hylifol.

Edrychodd y sesiwn ar ystyr hylifedd a phwysigrwydd hylifedd i'r economi ehangach yn ogystal ag oddi mewn i'r marchnadoedd ariannol.

Trafododd y sesiwn fywyd ar ôl byd yr argyfwng ariannol ac effaith yr amgylchedd rheolaeth newydd ac effaith rhyddhad mesurol ar lefelau hylifedd.

**Fforwm
Agored
2015**

Beth yw hylifedd ac a yw mwy ohono yn beth da?

Roedd consensws cyffredinol fod llai o hylifedd mewn rhai rhannau o'r farchnad yn creu problem i fuddsoddwyr. Roedd llai o hylifedd yn golygu mwy o risg, ac mewn rhai meysydd mae'r risgiau hyn wedi disgyn i law rheolwyr sydd nawr yn ffynhonnell fawr o fenthycia mewn marchnadoedd. Mae hylifedd isel hefyd yn golygu y bydd perfformiad yn arafu gan na all penderfyniadau buddsoddi gael eu gweithredu mor gyflym, ac y bydd rhaid cael mwy o arian.

Heriodd y sesiwn ddiffiniad safonol hylifedd gyda'r awgrym fod hylifedd yn golygu pethau gwahanol i gyfranwyr marchnad gwahanol.

Lleisiwyd y safbwynt cyferbyniol hefyd — sef nad oedd mwy o hylifedd yn llesol o reidrwydd, oherwydd ar ôl rhyw bwynt, daw'r wybodaeth mae'n ei darparu ynghylch camau gweithredu cyfranogwyr y farchnad. Roedd 'hylifedd aneglur' o fasnachu amledd uchel yn enghraifft o hyn. Awgrymodd y safbwynt canolog o gael mwy o wydnwch daw llai o hylifedd hefyd.

Beth sy'n gyrru hylifedd marchnad is?

Mae datblygiadau mewn technoleg a chiliad y banciau wedi cyfrannu at ddatblygiad y marchnadoedd cyflym. Mae maint y masnach yn y marchnadoedd hyn wedi creu teimlad o hylifedd cynyddol mewn adegau cyffredin, ond gallai ddiflannu o dan amgylchiadau o bwysau.

Soniwyd am reolaeth, strwythur marchnad a RM fel achosion posib hylifedd is. O'r ochr lleiaf hylifol y farchnad roedd rheolaeth wedi gwneud rhyngolion yn fwy hydwyth ond hefyd yn lleihau'r gallu i greu marchnadoedd a arweiniodd at hylifedd is.

Beth ddylien ni wneud ynglŷn â hylifedd is?

Bu'n ddadl y dylai rheolwyr symud eu ffocws o reolau manwl i gywiro strwythur y diwydiant drwy symleiddio sefydliadau ariannol a chreu diwylliant o gyfrifoldeb personol. Cytunwyd bod hylifedd yn thema y dylai fod ar flaen trafodaeth rhwng rheolwyr a diwydiant.

Pwysleisiodd sawl person ar y panel bwysigrwydd o brofi rheolwyr asedau dan bwysau. Rhoddwyd pwysau i'w ffurfioli ar draws gwmnïau ond yn caniatáu amrywioldeb.

Sut gall arloesi ariannol a thechnoleg gefnogi'r economi

Mae datblygiadau arloesol a thechnolegol wedi trawsnewid sawl sector ar hyd a lled yr economi. Mae gan y datblygiadau hyn y potensial i newid model traddodiadol ariannu.

Archwiliodd y sesiwn sut gall arloesi a thechnoleg newydd gynorthwyo i adeiladu buddiannau cymdeithasol marchnadoedd. Ystyriodd hefyd bwysigrwydd arloesi'n benodol o ran sut i greu mynediad haws i ariannu ac ehangu ar brofiad y cwsmer.

Sut mae arloesi ariannol dan law technoleg yn effeithio'r marchnadoedd?

Thema a ddaeth yn ôl dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd cynyddol bod yn agored yn y diwydiant ariannol a rôl cynyddol y cyhoedd ehangach. Awgrymwyd y byddai hyn, yn ogystal â blaenoriaethu'r cwsmer, yn gwneud y diwydiant yn fwy democrataidd.

Rhoddyd sylw yn y sesiwn ein bod mewn cyfnod o chwyldro ac fod gan gyfuniad yr economiau digidol rhyngwladol, rhwydweithiau a systemau y potensial i achosi newidiadau o fewn ariannu a'r rheini mor sylweddol â'r rheini ar gyfer gwneuthurwyr newyddau 200 mlynedd yn ôl. Gall syniadau nawr symud o fod yn syniad i fod yn weithred gyda chyflymder yr honiwyd y byddai'n amhosib ac heb unrhyw gefnogaeth ganolog, awdurdod na rheolaeth.

Sut mae amgylchedd ariannol yn effeithio ar ddatblygiadau?

Codwyd cwestiynau os dylai'r llywodraeth ymyrryd yn yr arloesi ariannol a diwydiant technolegol. Cytunwyd bod angen am ariannu amyneddgar, hir-dymor, ymroddedig a strategol fel y gellir creu busnesau cynaladwy. Cafodd ariannu trwy e-blatfformau ei drafod a nodwyd effeithlonrwydd ac hyblygrwydd y modelau ariannu amgen. Awgrymwyd y gall modelau awtomataidd, wedi ei arwain gan ddata roi gwerthusiad mwy cywir o risg na'r modelau traddodiadol, gan roi adborth yn ôl yn syth (ac arian o bosib) i'r rheini oedd yn ceisio amdano.

Mewn digwyddiad blaenorol yng Nghaergrawnt, darganfuwyd fod blwch o fewn ariannu ar gyfer arloesi. Er bod prosiectau bychain yn ogystal â phrosiectau mawr yn gallu dod o hyd i gyllid, roedd y rhai yn y canol yn cael trafferth. Daeth awgrym gan y panel fod ariannu wedi dod yn gamweithredol trwy weithredoedd 'ariannu arian' yn hytrach nag ariannu arloesi. Cododd hyn y cwestiwn o sut gellir defnyddio celfi cyfredol a newydd i ariannu arloesi yn yr economi sydd ohoni.

Beth yw effeithiau ehangach y modelau busnes newydd hyn?

Trafodwyd pwysigrwydd defnyddio data mewn ffyrdd newydd. Roedd digideiddio, pan yn cydfynd â data cywir yn darparu cyfle ac yn galluogi pobl i rannu beth oeddent eisiau ei rannu ac yn golygu fod anghenion y cwsmer yn cael eu deall yn well. Her sylfaenol yn wynebu'r arloesi oedd i sefydlu beth oedd y marchnadoedd a chymdeithas ei angen yn hytrach nag ymateb i beth y maent yn ddweud y maent ei eisiau. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â diogelwch y we a sut gellir rheoli hyn i gydfynd â thechnoleg.

Rhan y banciau canolog ar gyfer marchnadoedd ariannu

Tanlinellodd yr argyfwng ariannol bod sefydlogrwydd ariannol yn amcan polisi macroeconomaidd mor bwysig â sefydlogrwydd prisiau, ac fod gan y banciau ran hollbwysig i chwarae — gan gynnwys trwy bolisi macro-ochelgar a darparu yswiriant hylifedd i'r system ariannol.

Ffocysodd y sesiwn ar ran y banciau canolog o fewn marchnadoedd ariannol a pha mor bell y dylai eu swyddogaethau ymestyn. Yn benodol, ystyriwyd sut yr esblygir y rhan hwn i ymateb a heriau'r presennol a'r dyfodol.

Oes gan y banciau canolog ran i'w chwarae o fewn siapio'r strwythur ac effeithlonrwydd y marchnadoedd ariannol?

Nodwyd tra bod digwyddiadau diweddar wedi arwain at ymyriad gan y banciau canolog, yn y pen draw dylai banciau canolog ffocysu ar yr ymyriadau sy'n hysbysu eu hamcanion o gynnal sefydlogrwydd ariannol. Dylai banciau canolog fod yn weithredol ac edrych i'r dyfodol yn eu hymdrechion i ddeall a gwrthsefyll bygythiadau newydd, ond bod yn ofalus i beidio gor-ymestyn.

Amlygwyd yn y sesiwn bod gan fanciau canolog enw o fewn siapio strwythur y marchnadoedd ariannol, yn gyffredinol, mae banciau canolog wedi ceisio dod dros methiannau'r farchnad ble method y sector breifat i weithredu ar ei phen ei hun.

Sut mae datblygiadau technolegol a rheolaeth wedi newid marchnadoedd ariannol? A sut dylai'r banciau ymateb?

Awgrymwyd bod rhaid i fanciau, mewn byd ble mae banciau yn llai bodlon i chwarae rhan y gwneuthurwyr marchnad, egluro eu strategaeth yn glir i daclo cyfnodau o bwysau o fewn y farchnad. Yn benodol, dylai banciau fod yn glir am yr amgylchiadau y byddent yn barod i ymyryd er mwyn cefnogi hylifedd y farchnad.

Yn ehangach, pwysleiswyd yr angen i gyfleusterau hylifedd y banciau canolog fod yn gyffredol gyda'r strwythurau marchnad, er enghraifft trwy ddarparu hylifedd i rai sydd ddim yn fanciau.

Nodwyd y dylai banciau canolog ymdrechu i esbonio eu gweithredoedd i'r cyhoedd er mwyn delio ag amheuan o ddiffyg ffydd a chred o fewn eu system mewn cyfnod o arloesi technolegol, cyflym a chymleth.

Trafodwyd newidiadau rheolaeth ddiweddar sydd wedi cymhell banciau i leihau eu gweithredoedd cymeryd risg ac os oedd hyn wedi achosi newidiadau o fewn sut mae'r farchnad yn gweithio. Cwestiynodd y cyfranwyr os oedd banciau canolog wedi methu delio gydag effaith y newidiadau y hyn ar weithredoedd y farchnad.

Yn y sesiwn, fe soniwyd am y datblygiadau technolegol, gydag asedau ariannol yn cael eu masnach yn gyflymach, gyda chanolwyr gwahanol ac ar blatfformau newydd.

Gallai arian wedi'i ddatganoli amgen megis Bitcoin esgor ar heriau a chyfleoedd newydd — ond maen nhw'n annhebygol o gyflwyno her enfawr i fanciau canolog. Yn hytrach, roedd newyddbethau a ddaeth i'r wyneb ar yr un pryd yn debygol o gael mwy o effaith. Ystyriwyd bod y datblygiadau hyn yn gadarnhaol i'r system ariannol ac i'r banciau canolog — gan gynyddu tryloywder, lleihau'r risg o dalu setliad ac, yn achos digideiddio llawn, ehangu dewisiadau polisi ar gyfraddau llog isel iawn.

Ble nesaf ar gyfer marchnadoedd ariannol?

Darparodd y sesiwn hon adborth i bwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r sesiynau maes, trafodaethau yn y fforwm rhanbarthol ac o drydar a'r cyfryngau cymdeithasol ehangach.

Rhodddwyd ystyriaeth i bwyntiau allweddol y dydd, gydag awgrymiadau ynglŷn ag agenda'r dyfodol o fewn diwygio'r marchnadoedd ariannol. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyswllt gyda sesiwn baralel yng Nghaeredin.

Beth ddysgon ni?

Wrth edrych ar bwysigrwydd hawl y gymdeithas i weithredu, arloesi a thyfu, awgrymwyd er mwyn ennill trwydded gymdeithasol, fel roedd rhaid i fanciau ymateb yn well i anghenion cwsmeriaid.

Dadleuwyd y gallai rheolaeth gyfredol y banciau a'r rhyngweithrediad rhwng haenau amrywiol o reolaeth, fod yn gweithio, yn ymarferol, i wrthsefyll yn reddfol o fewn marchnadoedd ariannol. Roedd amheuan os oedd rheolaeth yn y lle cywir ac os oedd y diwygiad rheolaeth wedi ei osod yn gywir.

Nodwyd bod y diffyg dealltwriaeth gan y cyhoedd am ariannu yn broblem y dylai gael ei

daclo. Dylai addysg ariannol fynd ymhellach er mwyn lleddfu risg, ond dylai dealltwriaeth weithio ddwy ffordd a'r sector ariannol angen deall y cyhoedd a'u hanghenion hefyd.

Yn ôl mewnbwn o Gaeredin roedd rhwystredigaeth gyda'r marchnadoedd ariannol yn dal i fod yn amlwg oherwydd diffyg gochelgarwch y sefydliadau ariannol. Un datrysiad a gafodd ei awgrymu oedd i gwmnïau dderbyn cymhwyster trwydded gymdeithasol cyn derbyn awdurdod.

Amlygwyd y diffyg cyswllt rhwng y marchnadoedd a safbwynt y cyhoedd. Nodwyd y dylai marchnadoedd ariannol barhau i gyfathrebu gyda'r cyhoedd ehangach a stopio defnyddio iaith amgen.

Ble nesaf?

I gydfynd â deall ariannu, roedd hefyd alw am ddealltwriaeth gan y cyhoedd. Roedd y ffiniau rhwng sectorau a'r gymdeithas ehangach angen eu disodli er mwyn gweithredu ar y broblem o ddyledion yn y cartref. Er enghraifft, gallai cyfathrebu gwell a mwy cyfunol rhwng elusennau a'r diwydiant bancio gynorthwyo i osgoi dyled yn y lle cyntaf.

Roedd y panelwyr yn gweld gwerth mewn dealltwriaeth well o'r system ariannu fel modd o symud ymlaen. Daeth awgrym am ariannu i gael ei gynnwys o fewn cwricwlwm ysgolion a'r syniad y dylai'r prif ysgolion busnes symud oddi wrth ffocysu ar lefelau enillion ellir eu disgwyl ar ôl graddio. Rhaid i newid sylfaenol ddigwydd o ran beth mae cymdeithas yn ei ystyried fel 'enillwr'.

Nodwyd bod y Fforwm Agored yn fodd defnyddiol o gael trafodaeth barhaol — rhwng gwneuthurwyr polisiâu, cyfranwyr y farchnad a'r gymdeithas ehangach — ynglŷn â rhan y sefydliadau ehangach. Ni all fod yn un ymarfer yn unig.

Cydweithio i adeiladu marchnadoedd tecach

